

Ysgol Plas Coch  
Ffordd Stansty  
Wrecsam  
LL11 2BU  
Ffôn: 01978 311198



Ysgol Bro Alun  
Rhodfa Delamere  
Gwersyllt  
Wrecsam  
LL11 4NG  
Ffôn: 01978 269580

---

## FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

---

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher*)

[mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk) / [mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk)

### **Trefniadau os oes achos o Covid mewn dosbarth**

Mae'r drefn sydd angen i ysgolion ei dilyn os oes achos / achosion o Covid mewn dosbarth wedi newid o'r hyn yr oedd cyn y Nadolig – mae'r manylion isod:

**Un achos mewn dosbarth:** rhieni a gwarchodwyr yn derbyn neges i ddweud fod achos wedi ei gadarnhau yn y dosbarth ac i gadw llygaid am unrhyw symptomau yn eu plentyn. Neges er gwybodaeth yn unig fydd hon.

**Dau neu fwy o achosion mewn dosbarth:** rhieni a gwarchodwyr i dderbyn ail neges i ddweud fod dau neu fwy o achosion yn y dosbarth ac yn cynghori'n gryf i'w plentyn wneud prawf LFT bob bore am saith diwrnod cyn dod i'r ysgol. Os yw'r prawf yn bositif ar unrhyw un o'r dyddiau, rhaid ynysu a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Ni fydd hyn yn berthnasol i ddisgyblion sydd o dan 5 oed.

Os oes unrhyw symptomau ar eich plentyn, gan gynnwys symptomau arwahan i'r tri prif un, **peidiwch a gyrru eich plentyn i'r ysgol a threfnwch brawf PCR ar ei gyfer.** Ar gyfer disgyblion o dan 5 oed, dylent aros adref nes fod y symptomau wedi clirio.

Os oes disgybl yn profi'n bositif, a fod ganddo / ganddi frawd neu chwaer yn yr ysgol, dylai'r brawd neu chwaer gymryd prawf LFT bob bore am 7 niwrnod – cyn belled ei fod yn negatif, gall barhau i fynychu'r ysgol fel arfer.

Mae gwybodaeth am beth i'w wneud os rhywun yn profi'n bositif a'r rheolau hunan ynysu ar gael drwy'r ddolen isod:

<https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu>

Cysylltwch efo'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os am unrhyw wybodaeth bellach.

Diolch am eich cydweithrediad.